# Codi Tâl am Ofal Preswyl a Gofal Nyrsio

## Pam y mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn codi tâl am eu gwasanaethau?

Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol greu incwm er mwyn helpu i dalu am eu gwasanaethau.

Mae'n bosibl y bydd goblygiadau ariannol sylweddol o ganlyniad i symud i mewn i ofal cartref. Mae'r daflen wybodaeth yma'n rhoi manylion am y ffordd y caiff cost eich gwasanaethau preswyl a gofal nyrsio eu cyfrifo, ond dylech chi nodi mai gwybodaeth yn unig sydd yma a ddylech chi ddim dibynnu arni fel datganiad llawn o'r gyfraith.

Mae modd gweld manylion rhai sefydliadau cenedlaethol sy'n gallu cynnig cyngor annibynnol yn y daflen ffeithiau yma.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014 o hyn ymlaen) yn pennu'r rheolau codi tâl, ac oherwydd hynny, efallai bydd y Cyngor yn gofyn i chi gyfrannu at gost y gwasanaethau gofal a gewch chi.

## Pwy sy'n talu beth?

Bydd y Cyngor yn cyfrifo eich cyfraniad drwy gynnal asesiad ariannol. Bydd hynny'n fodd i ni gyfrifo'r swm y dylech chi'i gyfrannu at gost eich gofal mewn cartref. Mae'r Cyngor yn trafod â darparwyr cartrefi gofal lleol yn flynyddol er mwyn pennu cyfraddau ffioedd gofal cartref. Dyma'r ffi y mae'r Cyngor yn ei phennu. Caiff eich cyfraniad ei bennu ar sail y ffi yma. Os ydych chi'n gymwys i gael gofal nyrsio sydd wedi'i ariannu gan y GIG, bydd y Bwrdd Iechyd perthnasol hefyd yn cyfrannu at y costau. Yn achos y rheiny sy'n gymwys i gael gofal parhaus y GIG, bydd y Bwrdd Iechyd perthnasol yn talu'r costau.

Os mai'r Cyngor neu'r Bwrdd Iechyd sydd wedi trefnu'ch gofal, cewch chi ddatganiad ysgrifenedig o delerau ac amodau. Bydd hwnnw'n esbonio'r hyn a fydd yn digwydd os bydd raid i chi fynd i mewn i'r ysbyty, er enghraifft, pryd a sut y mae modd dod â'r contract i ben, ac i bwy y mae modd i chi gwyno os na fyddwch chi'n hapus.

Ebill 2018

**Gwasanaethau y mae modd codi tâl amdanyn nhw**

Mae modd codi tâl am y gwasanaethau canlynol:

- Gofal preswyl dros dro a pharhaol
- Gofal nyrsio dros dro a pharhaol
- Taliadau Uniongyrchol

**Gwasanaethau nad oes modd codi tâl amdanyn nhw**

Does dim cost am y gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion canlynol:

- Asesiadau o anghenion, gwaith cynllunio gofal ac adolygiadau
- Gwybodaeth a chyngor
- Gwasanaethau eiriolaeth a chyfryngu (mediation) annibynnol a phroffesiynol

**Defnyddwyr y Gwasanaeth sydd wedi'u Heithrio**

Does dim rhaid i sawl grŵp o unigolion sy'n cael gofal a chymorth dalu rhai o'u costau neu unrhyw gostau, gan gynnwys:

- y sawl sydd â Chlefyd Creutzfeldt-Jakob
- y sawl sy'n cael gwasanaethau ôl-ofal o dan Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- cynhalwyr oedolion sy'n cael cymorth
- unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd (caiff tâl ei godi am yr elfen gofal cymdeithasol o bob gwasanaeth yn unig).

## Sut y caiff y tâl ei gyfrifo?

Os ydych chi'n defnyddio gwasanaeth rydyn ni'n codi tâl amdano, bydd raid i ni ofyn i chi am eich incwm wythnosol a'ch cynilon.

Yn rhan o feini prawf cymhwysedd y Cyngor i ddefnyddio gwasanaethau cymdeithasol, byddwn ni'n rhoi ffurflen asesiad ariannol/gydsyniad i rannu gwybodaeth a thaflenni ffeithiau am gostau gofal i chi. **Rhaid i chi gwblhau'r ffurflen asesiad ariannol a'i hanfon yn ôl i'r Cyngor o fewn 15 diwrnod o'i chael.**

Fel arall, mae modd i chi wneud apwyntiad i swyddog ymweld a fydd yn eich helpu neu mae modd i'ch cynrychiolydd ariannol gwblhau'r ffurflen. Byddai'r Cyngor yn disgwyl i chi fod ar gael o fewn 15 o ddiwrnodau gwaith ar ôl cysylltu â'r Garfan Asesu Ariannol yn y lle cyntaf. Croeso i chi gysylltu â'r Garfan Asesu Ariannol ar **(01443) 680380 neu (01443) 680383** rhwng 9am a 5pm (dydd Llun–dydd Gwener) neu drwy ysgrifennu i'r Uned Taliadau, Bloc 5, Tŷ Bronwydd, Bronwydd Avenue, y Porth, CF39 9DL er mwyn gwneud cais am ymweliad i'r diben yma.

Mae modd i chi wneud cais am estyniad ar yr amserlenni yma, ond rhaid i'r Cyngor gytuno i hynny. Yn rhan o'ch asesiad ariannol, cewch chi gynnig gwiriad o'ch budd-daliadau, cyngor a chymorth ymarferol i wneud cais am fudd-daliadau efallai fod modd i chi eu hawlio.

**Os nad yw'r Cyngor yn cael ffurflen sydd wedi'i llenwi erbyn y dyddiad uchod, caiff y gost am y gwasanaeth a gewch chi ei chodi arnoch chi.**

## Faint y bydd raid i mi ei gyfrannu at gost y gwasanaeth?

Byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth a nodwch chi er mwyn cyfrifo'r costau y bydd raid i chi'u talu bob wythnos. Bydd disgwyl i chi dalu rhywfaint o'ch incwm rheolaidd. Bydd y gweddill yn dibynnu ar eich cynilon a'ch asedau. Mae'r rheolau yn sicrhau bod modd i chi gadw rhywfaint o'ch incwm wythnosol, sef £28.50. Dyma'r Swm Incwm Isaf.
Bydd y Cyngor yn rhoi cymorth i'r unigolyn benderfynu ar y ffordd orau o dalu'r gost sydd wedi'i hasesu. Bydd Yn rhan o hynny caiff cytundeb gohirio taliadau ei gynnig i'r unigolyn yn erbyn gwerth eiddo a gafodd ei ystyried yn yr asesiad ariannol. Mae modd dod o hyd i fanylion am hynny mewn taflen ffeithiau arall am Ohirio Taliadau.

Pan fydd y Cyngor yn cynnal asesiad ariannol, rhaid iddo ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys nifer o reolau o ran y mathau o incwm a chyfalaf y mae'n rhaid eu cynnwys a'u diystyru. Caiff defnyddwyr y gwasanaeth wybodaeth glir am y cyfrifiadau yma'n rheolaidd yn y datganiad a gaiff ei anfon:-

- Y tro cyntaf y cewch chi'r gwasanaethau yma
- Os bydd unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau ariannol
- Ac yn flynyddol, adeg eich ailasesu (mis Ebrill bob blwyddyn, fel arfer)

Bydd unigolion mewn cartref gofal sydd â chyfalaf cyfatebol i'r terfyn neu is yn cyfrannu'r rhan fwyaf o'u hincwm, ac eithrio eu Swm Incwm Isaf, at gost eu gofal a'u cymorth. (£40,000 yw'r terfyn cyfalaf y mae Llywodraeth Cymru wedi'i bennu ar gyfer 2018/19).

Caiff tâl am ofal seibiant yn y cynllun gofal a chymorth ei chodi ar ddefnyddiwr y gwasanaeth yn unol â'r polisi codi tâl amhreswyl, yn hytrach na'r polisi codi tâl yma.

## Beth os byddwch chi'n dewis cartref gofal sy'n costio mwy nag y byddwn ni'n ei dalu?

### Dewis Llety a Chostau Ychwanegol

Mae Adrannau 35 i 38 o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi cymorth i unigolyn ddod o hyd i leoliad addas o'i ddewis, ar ôl penderfynu, drwy ei asesu, bod angen gofal mewn cartref gofal arno. Mae gan yr unigolyn yr hawl i fynegi ei ddewis cartref gofal cyn belled â:

- bod y cartref gofal yn addas ac mae modd iddo ddiwallu anghenion asesedig yr unigolyn
- byddai gwneud hynny'n costio mwy i'r Cyngor nag y byddai'n disgwyl ei dalu am lety o'r math hwnnw
- bod lle yn y cartref gofal; a
- bod darparwr y cartref gofal yn fodlon ymrwymo i gontract sy'n cynnwys telerau ac amodau'r Cyngor

Os bydd unigolyn yn dewis mynd i leoliad y tu allan i Rondda Cynon Taf, bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau'n unol â hynny yn yr un modd, cyn belled ag y caiff yr amodau uchod eu bodloni. Ar ôl hynny, bydd y Cyngor yn dilyn canllawiau yn Adran 194 o Ddeddf 2014 ar breswylfa arferol. Mae modd dod o hyd i ragor o fanylion ym mholisi preswylfa arferol y Cyngor.

Mewn rhai achosion, caiff unigolyn ddewis cartref gofal sy'n ddrutach na'r gost y byddai'r Cyngor fel arfer yn disgwyl ei thalu am y math hwnnw o lety. Pan fo cost ychwanegol, fydd y Cyngor ddim yn trosglwyddo unigolyn i'r dewis lety heblaw y bydd trydydd parti'n cytuno i fod yn gyfrifol am y taliad ychwanegol ac i ymrwymo i gytundeb â'r Cyngor ac â darparwr y cartref gofal. Os nad oes neb yn fodlon talu'r costau ychwanegol neu os nad oes modd iddyn nhw wneud hynny, bydd y Cyngor yn gwrthod trosglwyddo'r unigolyn i'r dewis lety. Mae modd dod o hyd i ragor o fanylion ym Mhrotocol Dewis Lety'r Cyngor a gafodd ei ddatblygu mewn partneriaeth â Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

**Hunan arianwyr sy'n gofyn i'r Cyngor drefnu eu gofal**

Yn unol ag adran 35 o Ddeddf 2014, bydd y Cyngor yn trefnu lleoliad preswyl ar gyfer unigolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth asesedig os gofynnir iddo wneud hynny. Gwnaiff hynny hyd yn oed os oes gan yr unigolyn asedau digonol i dalu am ei ofal a'i gymorth ei hun mewn cartref gofal.

## Beth y bydd raid i Wasanaethau Cymdeithasol wybod?

**Eich incwm** – efallai bydd hyn yn cynnwys pensiwn ymddeol y wladwriaeth, pensiwn galwedigaethol neu fudd-daliadau eraill. Rheolau arweiniol sy'n penderfynu pa rai a gaiff ystyriaeth at ddibenion asesu.

**Eich cyfalaf** – dyma werth unrhyw eiddo, cynilon neu fuddsoddiadau sydd gennych chi. Caiff rhai eu heithrio o'n cyfrifiadau. Ar hyn o bryd, os yw'ch asedau yn llai na £40,000, cân nhw eu hanwybyddu at ddibenion asesu. Os oes gennych chi asedau sy'n werth mwy na £40,000 o'u cyfuno â'ch incwm, bydd raid i chi dalu cost wythnosol y gofal yn llawn (ac eithrio'r Elfen Iechyd os ydych chi'n symud i wely nyrsio mewn cartref gofal).

Os yw'ch cyfalaf yn llai na £40,000, ond mae eich incwm wythnosol yn fwy na'ch ffioedd cartref gofal, bydd raid i chi dalu'r costau gofal yn llawn.

Os oes gennych chi eiddo, chaiff ei werth mo'i ystyried os bydd priod, partner (gan gynnwys partner sifil) neu berthynas agos ddibynnol hŷn na 60 oed yn parhau i fyw yno, neu os byddwch chi mewn cartref gofal **dros dro** yn unig. Ar ôl i chi symud i gartref gofal yn **barhaol**, bydd y Cyngor yn anwybyddu gwerth eich tŷ am y 12 wythnos gyntaf, a'ch asesu ar sail eich incwm a'ch cynilon yn unig. Bydd y Cyngor yn talu unrhyw ddiffygion yn ystod y cyfnod 12 wythnos yma. Serch hynny, os byddwch chi'n gwerthu eich eiddo yn ystod y cyfnod hwn, byddwn ni'n ystyried yr enillion o'i werthu ar unwaith.

Efallai bydd y broses o werthu eich asedau neu o gael arian amdanyn nhw'n hir, neu efallai y byddwch chi'n dewis ***peidio*** â'u gwerthu neu gael arian amdanyn nhw, ac mae'r Cyngor yn cydnabod hynny. Er enghraifft, efallai am ryw reswm y byddwch chi'n penderfynu peidio â gwerthu eich tŷ. Nid polisi'r Cyngor yw ei gwneud yn ofynnol i bobl sy'n symud i mewn i gartrefi gofal werthu eu heiddo er mwyn cyfrannu at gostau'r gofal. Yn yr achos yma, byddai disgwyl i chi dalu o weddill eich asedau ac incwm.

Caiff y taliadau, sef y gwahaniaeth rhwng eich cost asesedig a chost lawn y cartref, eu gohirio a'u hychwanegu at ddyled yn erbyn yr eiddo. Rhaid i'r Cyngor gynnig cynllun gohirio taliadau ffurfiol ac mae modd dod o hyd i fanylion am hynny mewn taflen ffeithiau arall am Ohirio Taliadau.

Cofiwch, efallai y bydd gwneud hynny'n effeithio ar unrhyw fudd-daliadau a gewch chi, megis credyd pensiwn. Oherwydd hynny, mae'r Cyngor yn argymell yn gryf eich bod yn cael rhagor o gyngor ar y mater yma gan ffynhonnell annibynnol. Mae modd dod o hyd i fanylion am sefydliadau perthnasol ar ddiwedd y daflen ffeithiau yma neu, wrth gwrs, rhwydd hynt i chi ddewis eich ffynhonnell eich hun.

Croeso i chi gysylltu â'r Garfan Asesu Ariannol ar **(01443) 680380 neu (01443) 680383** rhwng 9am a 5pm (dydd Llun–dydd Gwener) neu drwy ysgrifennu i'r Uned Taliadau, Bloc 5, Tŷ Bronwydd, Bronwydd Avenue, y Porth, CF39 9DL er mwyn gwneud cais am ymweliad i'r diben yma.

## Beth os byddaf i'n cael gwared ar fy asedau cyn y caf i fy nerbyn?

Os byddwch chi'n cael gwared ar eich asedau er mwyn bod yn fwy tebygol o gael cymorth yr awdurdod lleol mewn perthynas â'ch gofal, efallai y bydd modd i'r Cyngor eich asesu fel pe bai gennych chi'r asedau o hyd. Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru rhaid ystyried pob achos yng ngoleuni ei amgylchiadau unigryw, ac mae egwyddor cyfraith gyhoeddus yn rhwymo Cynghorau i weithredu'n rhesymol ar bob adeg. Eto, mae'r Cyngor yn argymell yn gryf eich bod yn cael rhagor o gyngor gan ffynhonnell annibynnol.

## Diystyru yn ôl disgresiwn

Mae gan y Cyngor ddisgresiwn i ddiystyru eiddo mewn amgylchiadau eraill. Serch hynny, bydd raid iddo bwyso a mesur y disgresiwn yma gan sicrhau na chaiff asedau unigolyn eu cynnal ar draul arian cyhoeddus. Efallai y byddai'n briodol defnyddio disgresiwn i ddiystyru, er enghraifft, pan mai'r eiddo yw unig breswylfa rhywun sydd wedi ildio ei gartref ei hun er mwyn gofalu am yr unigolyn sydd bellach mewn cartref gofal.

Pan fo hynny'n digwydd, bydd y Cyngor yn ystyried pob ffactor perthnasol cyn penderfynu p'un a ddylai'r eiddo gael ei ddiystyru.

Efallai y bydd ffactorau megis yr adeg symud a'r bwriad o symud yn berthnasol yn y broses o benderfynu p'un ai prif neu unig gartref cynhaliwr (gofalwr) yw'r eiddo. Yn yr amgylchiadau yma, diben diystyru yw diogelu rhai categorïau o bobl rhag y risg o fod yn ddigartref.

Bydd y Cyngor yn ystyried p'un a yw symud yn angenrheidiol i sicrhau bod gan y berthynas brif neu unig gartref i fyw ynddo, yn hytrach na bod yn fodd i ddiogelu etifeddiaeth y teulu.

**Gwariant a Ganiateir**

Os oes angen cynyddu Swm Incwm Isaf unigolyn er mwyn cynnwys unrhyw wariant cysylltiedig ag anabledd neu ymrwymiadau cartref, bydd y Cyngor yn ystyried hynny, yn enwedig os yw'n breswyliwr dros dro.

Os yw unigolyn yn credu bod ganddo wariant uwch na'r Swm Incwm Isaf, mae ganddo hawl i ofyn am adolygiad ac ystyriaeth fwy manwl o'i gostau cysylltiedig ag anabledd.

## Y Gost Uchaf a Gaiff ei Chodi

Bydd raid pennu'r gost uchaf am wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn unigol, yn ôl modd unigolyn a chost y lleoliad.

Chaiff tâl ei godi ar unigolyn o'r swm asesedig y mae modd iddo'i dalu'n ariannol yn unig. Ar ôl y caiff unrhyw gostau ariannol eu codi, bydd ganddo incwm sydd o leiaf yn cyfateb i'r swm incwm lleiaf.

## Hysbysiad o Gost

Ym mhob achos, caiff canlyniad yr asesiad o'ch cyfraniad at eich ffioedd gofal ei gadarnhau'n ysgrifenedig a chaiff datganiad ategol ei gynnwys a fydd yn nodi'r manylion am y ffordd y cyfrifodd y Cyngor eich asesiad. Bydd yr ohebiaeth yma hefyd yn cynnwys y manylion canlynol:

- Y dyddiad dechrau talu
- Sut i ofyn am adolygiad
- Amserlen anfonebu
- Dulliau o dalu
- Eich rhwymedigaethau i'r Cyngor o ran newidiadau i amgylchiadau ariannol

## Beth os nad ydw i am roi manylion am fy nghyllid i chi?

Does dim rhaid i chi. Mae gan bobl unigolyn yr hawl i beidio â rhoi ei fanylion ariannol i'r Cyngor. Yn yr achosion hynny, does dim modd i'r Cyngor gynnal asesiad ariannol, a chaiff tâl ei godi ar yr unigolyn am ei ofal yn unol â chyfradd y Cyngor y cytunnir arni am y fath o ofal a chymorth preswyl a gaiff.

## Penodi rhywun i weithredu ar eich rhan

O Ebrill 2016, os nad oes gan ddefnyddiwr y gwasanaeth y gallu i reoli ei faterion ariannol, bydd raid iddo nodi hynny yn rhan o feini prawf cymhwysedd y Cyngor. Os ydyn nhw'n gymwys, caiff anfoneb ei hanfon yn uniongyrchol i fan preswylio'r unigolyn sy'n cael gwasanaethau. Mae modd i'r Cyngor anfon copïau o ohebiaeth (nid anfonebau swyddogol) at drydydd parti cyn belled â bod yr unigolyn sy'n cael gwasanaethau gofal wedi rhoi'r awdurdod ysgrifenedig perthnasol i ni.

Os yw rhywun yn gweithredu ar eich rhan, mae'n bwysig ei fod yn gwneud hynny'n ffurfiol, er enghraifft Penodai i reoli'ch budd-daliadau gan y wladwriaeth, Atwrneiaeth Arhosol neu Ddirprwy o dan y Llys Gwarchod. Dim ond yn yr achosion yma y bydd y Cyngor yn cysylltu â'ch cynrychiolydd i gael gwybodaeth am eich sefyllfa ariannol. Os yw'ch cynrychiolydd yn derbyn cyfrifoldeb am y taliadau, byddwn ni'n anfon anfoneb am eich ffioedd gofal yn uniongyrchol ato.

## Sut rydw i'n gwneud taliadau?

Bob 4 wythnos byddwn ni'n anfon anfoneb atoch chi; bydd yr anfoneb yma'n nodi costau sy'n ddyledus. Mae amrywiaeth o ddulliau o dalu anfonebau. Mae manylion am y dulliau wedi'u cynnwys ar gefn y bil a gaiff ei anfon bob mis, ac mae'n cynnwys yr opsiynau talu canlynol:

- Debyd uniongyrchol
- Siec
- Talu mewn unrhyw gangen banc Barclays
- Talu mewn unrhyw swyddfa'r post (â cherdyn adnabod y Cyngor)
- Talu â cherdyn debyd/credyd
- Talu wrth ddesgiau arian y Cyngor

Serch hynny, os byddwch chi'n symud i mewn i gartref gofal y tu allan i'r ardal, cewch chi'ch cynghori i dalu eich costau asesedig yn uniongyrchol i'r cartref, a byddwn ni'n trefnu i dalu unrhyw swm sy'n weddill i'r cartref gofal.

## Beth os nad ydw i'n cytuno â'r cyfraniad y mae rhaid i mi ei dalu?

Cewch chi wneud cais am adolygiad o'ch asesiad ariannol pan fyddwch chi'n teimlo y bu penderfyniad amhriodol, naill ai o ran lefel y gost, neu mewn perthynas â'r sail dros y penderfyniad i godi tâl. Mae gennych chi hawl i roi gwybodaeth ychwanegol ar gyfer eich asesiad ariannol, er enghraifft, am wariant ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd. Bydd y Cyngor yn sefydlu Panel Adolygu a gaiff ei arwain gan Bennaeth y Gwasanaeth er mwyn ystyried y ceisiadau yma.

Mae modd cael ffurflen adolygu a thaflen ffeithiau drwy ffonio'r Garfan Asesu Ariannol ar **(01443) 680380 neu (01443) 680383** rhwng 9am a 5pm (dydd Llun–dydd Gwener) neu drwy anfon llythyr i'r Uned Taliadau, Bloc 5, Tŷ Bronwydd, Bronwydd Avenue, y Porth, CF39 9DL.

Os nad yw unigolyn yn hapus gyda phenderfyniad y Panel Adolygu, bydd modd iddo wneud cwyn ffurfiol am hynny i'r Cyngor yn unol â gweithdrefn cwynion Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol y Cyngor.

## Beth os bydd fy amgylchiadau ariannol yn newid?

Os bydd eich amgylchiadau ariannol yn newid, rhaid i chi roi gwybod i'r Garfan Asesu Ariannol cyn gynted â phosibl oherwydd efallai bydd hynny'n effeithio ar yr asesiad o'r gost. Dyma rai o'r newidiadau y dylid rhoi gwybod amdanyn nhw:

- Budd-daliad newydd
- Newidiadau i'ch cyfalaf
- Newidiadau i'ch incwm neu i'ch gwariant a ganiateir

Bydd hynny'n sicrhau y caiff costau eu codi arnoch chi'n gywir ac yn deg.

## Beth fydd yn digwydd os nad ydw i'n talu?

Pan fyddwch chi'n cronni dyled, bydd y Cyngor yn cymryd pob cam rhesymol er mwyn darganfod y rhesymau dros hynny. Dim ond mewn achosion clir o beidio â thalu'n fwriadol y caiff camau eu hystyried i adfer y ddyled, yn unol â gofynion Deddf 2014.

## Ble y mae modd i mi gael rhagor o wybodaeth na'r hyn sydd yn y pamffled yma?

Mae gan y Cyngor linell gymorth er mwyn rhoi gwybodaeth a chyngor. Croeso i chi ffonio'r Garfan Asesu Ariannol ar **(01443) 680380 neu (01443) 680383** rhwng 9am a 5pm (dydd Llun–dydd Gwener) neu anfonwch lythyr i'r Uned Taliadau, Bloc 5, Tŷ Bronwydd, Bronwydd Avenue, y Porth, CF39 9DL.

## Ble y gallaf i gael cyngor ariannol annibynnol?

Efallai ei bod yn gymhleth cynllunio ar gyfer eich anghenion gofal a chymorth yn y dyfodol, ac mae'r Cyngor yn gwybod hynny. Efallai y bydd o gymorth i chi gael cyngor proffesiynol i adnabod y datrysiad mwyaf addas a chost-effeithiol.

Mae nifer mawr o sefydliadau a fydd yn rhoi cyngor cyffredinol am ddim ar ariannu gofal a chymorth. Mae'r rhain yn fan cychwyn da i gael gwybodaeth ac i weld y mathau o opsiynau sydd ar gael.

**Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol**
Rhif Ffôn 0800 138 0555
https://www.moneyadviceservice.org.uk/cy

**Age Cymru**
Rhif Ffôn – Llinell Gyngor 08000 223 444
http://www.ageuk.org.uk/cymru/

**Cyngor ar Bopeth**
Rhif Ffôn – Llinell Gymorth 034554 04 05 06
https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/

***Mae modd rhoi'r wybodaeth yma mewn fformatau eraill***
***(Saesneg, llythrennau bras, Braille ac ieithoedd eraill)***

Er mwyn gwneud sylw am y daflen ffeithiau yma neu unrhyw wybodaeth arall o wasanaethau cymdeithasol,

cysylltwch â gwasanaethaucymdeithasol@rhondda-cynon-taf.gov.uk